



GWEITHDREFN GORMODEDD 2018-19

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r drefn mae disgwyliad fod aelodau o'r is-banel 'Cyllid' a 'Disgyblu a Diswyddo' yn llawn ymwybodol o'u rolau ac wedi mynychu hyfforddiant perthnasol diweddar.		Amserlen Gormodedd 2018-19
1	<p>Y Pennaeth yn rhagweld arwyddion fod angen cwtogi staff drwy ystyried niferoedd disgyblion</p> <p>Y Pennaeth i gysylltu â'r Uwch Gyfrifwyr yn yr Uned Datblygu i drafod rhagolygon cyllidol ar sail y niferoedd, ac i gael manylion y gyllideb debygol.</p> <p>kathybell@gwynedd.llyw.cymru / gwynowen@gwynedd.llyw.cymru</p>	Erbyn 26/10/18 (Gwyliau Hanner Tymor 29 Hydref – 2 Tachwedd 2018)
Cofiwch - Ni ellir cymryd camau i sicrhau toriadau staffio ar sail diswyddo os ceir arwyddion eglur y gellid cynnal y lefel staffio gyfredol yn rhesymol o gymryd arian wrth gefn a balansau heb eu hymrwymo i ystriaeth.		
2	<p>Trafodaeth gychwynnol rhwng y Pennaeth â'r Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol (SAAC)</p> <p>maibere@gwynedd.llyw.cymru</p>	Erbyn 26/10/18
3	<p>Y Pennaeth i gynnal trafodaeth anffurfiol gyda'r</p> <ul style="list-style-type: none">- Cadeirydd- Staff cyfan <p>Y Pennaeth, trwy'r clerc ac ar ran y llywodraethwyr, yn anfon Llythyr 1 at y staff a'r Undebau perthnasol</p> <p>Nid oes angen anfon unrhyw ddogfennaeth ar y pwynt yma.</p>	Erbyn 09/11/18
4	<p>Cynnal cyfarfod o'r Corff Llywodraethol llawn</p> <p>Anghenion gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none">(i) Y Pennaeth a'r Cadeirydd yn hysbysu'r llywodraethwyr eu bod yn rhagweld posibilrwydd o leihad yn lefel staffio'r Ysgol ac yn adrodd ar y camau a gymerwyd eisoes;(ii) Cadeirydd yn cadarnhau ac yn cofnodi aelodaeth a chylch gwaith yr Is-baneli 'Disgyblu a Diswyddo' / 'Apêl Disgyblu a Diswyddo' / 'Cyllid'.(iii) Cadeirydd yn sicrhau fod y Clerc yn cofnodi penderfyniad y Corff Llywodraethol gan ddefnyddio pwyntiau bwled clir.	Erbyn 23/11/18



5	<p>Cynnal cyfarfodydd o'r Is-baneli: Cadeirydd yr Is-banel Cyllid i gadarnhau cyfanswm disgwylidig y toriadau ariannol. Mae disgwyl i'r pennaeth a chadeirydd yr is-banel wirio'r cyfansymiau gyda thechnegydd ariannol Adran Cyllid y Cynghor.</p> <p>Yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo i drafod yr effaith tebygol ar gyflogaeth staffio yr ysgol yn dilyn cynnal 'Awdit Cwricwlwm' (uwchradd) / 'Awdit Opsiynau' (Cynradd)</p> <p>Cadeirydd yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo, trwy'r Clerc, yn hysbysu'r staff, yr Undebau a'r Adran Addysg o'u penderfyniad gan ddefnyddio.</p> <p style="text-align: center;">ANFON LLYTHYR 2a</p> <p>Cadeirydd yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo, trwy'r Clerc a'r Pennaeth yn sicrhau fod dogfen 'Gormodedd Adran A' ynghyd a'r holl ddogfennaeth berthnasol yn cael eu hanfon at Ysgrifenyddion Sirol yr Undebau perthnasol a'r Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol – Mai Bere.</p> <p>Mae'r ddogfen "Gormodedd Adran A" ynghyd â'r holl ddogfennaeth berthnasol yn cael ei anfon i sylw'r undebau a'r Awdurdod yn unig ac NID i aelodau o staff unigol, heblaw bod aelod o staff ddim yn aelod o undeb.</p>	<p style="text-align: center;">Erbyn 07/12/18</p>
6	<p>Cadeirydd yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo, trwy'r Clerc a'r Pennaeth, yn cynnal trafodaethau /ymgyngori gyda'r undebau perthnasol ar ddulliau o osgoi diswyddo staff / lleihau effaith diswyddiadau trwy</p> <ul style="list-style-type: none">- wahodd staff i ymddeol yn gynnar, gweithio'n rhan amser neu ddiswyddo gwirfoddol. (Rhaid i unrhyw gais gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig drwy lythyr neu e-bost.)- rewi swyddi gwag / cynlluniau i'r dyfodol- ystyried i ba raddau y mae'n bosib cynnal y lefel staffio trwy ystyried balansau. <p>Cynnal cyfarfodydd o'r Is-banel Disgyblu a Diswyddo yn ôl yr angen.</p> <p><i>(Mae llythyr parod ar gael i ysgolion rhoi gwybod i aelodau staff ei fod yn fwriad gan yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo ganiatáu cais i ymddeol yn gynnar /derbyn diswyddiad gwirfoddol (LLYTHYR 2b))</i></p> <p>Darparu unrhyw wybodaeth resymol ychwanegol i'r Undebau</p>	<p style="text-align: center;">Rhwng 10/12/18 a 18/01/19</p> <p style="text-align: center;">(Gwyliau'r Nadolig 24/12/18-04/01/19)</p>



<p>7</p>	<p>Cynnal cyfarfodydd o'r Is-banel Disgyblu a Diswyddo: -mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol (SAAC) neu y Swyddog Busnes a Gwasanaethau (SBG) neu'r Swyddog Addysg (SA), sefydlu meini prawf gwrthrychol ar gyfer ymgynghori, a'r drefn o'u mesur.</p> <p>Rhaid ystyried sylwadau'r Swyddog a bod yn ymwybodol o oblygiadau weithio'n groes i unrhyw arweiniad a roddir. Dylai Cadeirydd yr Is-banel, trwy'r Clerc, sicrhau ei fod yn anfon cofnodion i sylw'r Swyddog perthnasol am ei sylwadau cyn ymgynghori'n ffurfiol</p> <p>ANFON LLYTHYR 3a</p> <p>RHAID nodi'r dyddiadau isod gyda Llythyr 3a:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dyddiad y cyfarfod er mwyn enwebu aelod(au) o'r staff i'w diswyddo oherwydd gormodedd ar sail y meini prawf a fabwysiadwyd • Dyddiad unrhyw gyfarfod 'gwrandawriad personol' posib Dyddiad wrth gefn yn ogystal • Dyddiad unrhyw gyfarfod 'apêl' posib o fewn deg diwrnod gwaith i'r dyddiad yr hysbyswyd yr unigolyn(ion) o'r penderfyniad neu'r penderfyniad i gadarnhau diswyddo os bu gwrandawriad personol. Dyddiad wrth gefn yn ogystal <table border="1" data-bbox="284 1149 1046 1368"> <thead> <tr> <th colspan="2">Amserlen os oes Gwrandawriad</th> <th colspan="2">Amserlen os nad oes Gwrandawriad</th> </tr> <tr> <th></th> <th>Diwrnod olaf</th> <th></th> <th>Diwrnod olaf</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Enwebu</td> <td>05/04/19</td> <td>Enwebu</td> <td>05/04/19</td> </tr> <tr> <td>Gwrandawriad</td> <td>03/05/19</td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>Apêl</td> <td>17/05/19</td> <td>Apêl</td> <td>03/05/19</td> </tr> </tbody> </table> <p><i>(Mae llythyr parod ar gael i ysgolion rhoi gwybod i holl aelodau staff sy'n nodi bod y llywodraethwyr wedi derbyn digon o gynigion gwirfoddol y gellir eu caniatáu gan staff i ymddeol neu i weithio'n rhan amser ac na ragwelir y bydd angen parhau gyda'r drefn o wneud toriadau gorfodol ar lefel staffio'r ysgol ar sail y rhagolygon cyllidol fwyaf diweddar. (Llythyr 3b))</i></p>	Amserlen os oes Gwrandawriad		Amserlen os nad oes Gwrandawriad			Diwrnod olaf		Diwrnod olaf	Enwebu	05/04/19	Enwebu	05/04/19	Gwrandawriad	03/05/19			Apêl	17/05/19	Apêl	03/05/19	<p>Erbyn 04/02/19</p>
Amserlen os oes Gwrandawriad		Amserlen os nad oes Gwrandawriad																				
	Diwrnod olaf		Diwrnod olaf																			
Enwebu	05/04/19	Enwebu	05/04/19																			
Gwrandawriad	03/05/19																					
Apêl	17/05/19	Apêl	03/05/19																			
<p>8</p>	<p>Ymgynghori'n ffurfiol gyda'r Undebau a'r SAAC/SBG/SAA ar y meini prawf, trefn ac amserlen i'w dilyn.</p>	<p>Rhwng 04/02/19 a 15/03/19 (Gwyliau hanner tymor 25/2 -01/03/19)</p>																				
<p>9</p>	<p>Is-banel Disgyblu a Diswyddo i:- -ystyried canlyniad yr ymgynghori â'r Undebau; -cytuno ar y meini prawf neu'r angen i ymgynghori ymhellach -pe bai anghytundeb, nodi'r rhesymau yn ysgrifenedig dros beidio â mabwysiadu cynigion gan yr Undebau gan roi ystyriaeth i gyngor Swyddog gan ddarparu copi i'r undebau</p>	<p>Erbyn 15/03/19</p>																				



10	Cynnal cyfarfod neu gyfarfodydd o'r is-banel Cyllid er mwyn trafod y rhagolygon cyllidol fwyaf diweddar a chadarnhau'r angen i dorri ai pheidio.	Rhwng 22/03/19 a 01/04/19 (Gwyliau Pasg rhwng 15/04/19- 26/04/19)
11	<p>Os yw'r is-banel Cyllid yn cadarnhau'r angen i dorri, dylid cynnal cyfarfod, neu gyfarfodydd, o'r Is-banel Disgyblu a Diswyddo er mwyn enwebu aelod(au) o'r staff i'w diswyddo oherwydd gormodedd ar sail y meini prawf a fabwysiadwyd.</p> <p>Mae gofyn i Swyddog Addysg (SA), Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol (SAAC) neu Swyddog Busnes a Gwasanaethau (SBG) fod yn bresennol.</p> <p>Dylai Cadeirydd yr Is-banel, trwy'r Clerc hysbysu'r rhai yr effeithir arnynt o'r penderfyniad gan ddarparu copi o'r rhesymau pam y'u dewiswyd a chanlyniadau'r broses o asesu/mesur holl staff yn erbyn y meini prawf. (Llythyr 4)</p> <p>Dylid eu hysbysu o'u hawl i wrandawriad personol o flaen yr Is-banel Disgyblu a Diswyddo gyda chynrychiolydd / cydweithiwr. Dylid eu hysbysu o'u hawl i apelio Dylid hefyd hysbysu'r Adran Addysg o benderfyniad y panel.</p>	<p>Erbyn 05/04/19</p> <p>Gwrandawriad erbyn 03/05/19 (Gŵyl Calan Mai 06/05/19)</p>
12	<p>Os yw'r diswyddo i barhau wedi gwrandawriad personol mae gofyn i Gadeirydd yr Is-Banel, trwy'r Clerc i hysbysu'r rhai yr effeithir arnynt o'u hawl i apelio- (Llythyr 5)</p> <p>Pe bai gofyn- cynnal Cyfarfod Apêl o fewn deg diwrnod gwaith i'r dyddiad yr hysbyswyd yr unigolyn(ion) o'r penderfyniad neu'r penderfyniad i gadarnhau diswyddo os bu gwrandawriad personol.</p>	<p>Apêl erbyn 17/05/19</p>
13	<p>Cadeirydd yr Is-Banel, trwy'r clerc, yn hysbysu'r unigolyn o benderfyniad y Panel Apêl ynghyd a chopi at Yr Adran Addysg (Llythyr 6)</p> <p>Cyfrifoldeb Y Pennaeth Addysg fydd cyflwyno'r rhybudd diswyddo ffurfiol i'r staff perthnasol.</p> <p>Dylid hefyd hysbysu'r Adran Addysg o'r unigolion y mae angen cadarnhau derbyn eu cynnig i weithio'n rhan amser/wirfoddoli cael eu diswyddo/ymddeol yn gynnar.</p>	<p>Erbyn 24/05/19</p>
<p>RHAID I LYWODRAETHWYR A PHENAETHIAID LYNU WRTH YR AMSERLEN GYTUNEDIG UCHOD ER MWYN CYFLWYNO'R RHYBUDD DISWYDDO FFURFIOL I UNIGOLION CYN DIWEDD MAI.</p> <p>OS NA LWYDDIR I WNEUD HYN MI FYDD DIFFYG CYLLIDOL YR YSGOL YN CINYDDU.</p> <p>MAE GAN BOB AELOD O STAFF SYDD WEDI GWEITHIO 12 MLYNEDD A MWY I YSGOL NEU UNRHYW AWDURDOD ADDYSG YR HAWL I LEIAFSWM O 12 WYTHNOS O RYBUDD</p>		